TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 15 Hydref 2021

## Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

## Atebion i'ch Cwestiynau

1. **Sut ariannwyd pryniant Pullman?**
Cafodd y caffaeliad ei ariannu drwy gyllideb cyfalaf Llywodraeth Cymru a ddyrannwyd i ddarparu capasiti cadw ychwanegol ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau; bydd y caffaeliad yn golygu bod modd darparu'r lle cadw hwn ar safle depo Treganna.

2. **Sut bydd y benthyciad gwerth £6m mae TrC wedi'i roi i Pullman yn cael ei ad-dalu?**
Bydd y benthyciad yn cael ei ad-dalu o bryd i'w gilydd gan ddefnyddio arian a gynhyrchir o elw masnachu.

3. **O ran Prynu Pullman, a brynwyd yr ased neu a brynwyd ecwiti yn Pullman?**
Cafodd y cwmni ei gaffael drwy brynu ecwiti.

4. **Faint wnaeth TrC ei dalu am Pullman?**
Talwyd £10,850,452 am brynu cyfranddaliadau. Prynwyd darn o dir hefyd gan Pullman Rail Limited am £600,000 mewn pryniant a oedd ar wahân i'r pryniant cyfranddaliadau.

5. **Pa Ddiwydrwydd Dyladwy wnaeth TrC ei gynnal cyn prynu Pullman?**
Yn unol â'r safon wrth brynu cyfranddaliadau o'r math a'r maint hwn, cynhaliodd TrC broses ddiwydrwydd ariannol a chytundebol annibynnol helaeth, sy'n cynnwys asesiad o atebolrwydd treth, refeniw a phrisio menter. Mi wnaethom hefyd gynnal proses ddiwydrwydd dyladwy ar y contract, sy'n asesiad ehangach o'r holl rwymedigaethau gan gynnwys risgiau contractau cwsmeriaid. Fel cwmni sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru, rhannwyd ein holl ganfyddiadau diwydrwydd dyladwy â Llywodraeth Cymru er mwyn cael cymeradwyaeth y gweinidogion, a gafodd ei ddarparu'n briodol.

6. **Pwy gynhaliodd y Diwydrwydd Dyladwy?**
Cafodd diwydrwydd dyladwy ariannol annibynnol ei wneud gan Deloitte, a chafodd cyngor a diwydrwydd dyladwy cyfreithiol eu cynnal gan Blake Morgan. Alder King a Matthews Goodman ddarparodd brisiadau tir yn unol â safonau prisio'r Llyfr Coch. Darparwyd cyngor amgylcheddol gan SOCOTEC Asbestos Ltd. Mi wnaethom hefyd asesu'r safle o ran ei gyflwr ffisegol drwy Amey, SNCL Lavelin a TXM at ddibenion defnydd gweithredol, cyflwr cyffredinol y safle ac asesiad anymwthiol ar yr adeilad presennol.

7. **O'r ymarfer Diwydrwydd Dyladwy a oes colledion yn cael eu gwneud ar unrhyw un o'r contractau sydd gan Pullman?**
Nac oes.

8. **Beth mae cymorth hyd braich yn ei olygu, ydy TrC yn bwriadu rhoi cymhorthdal i'r cwmni rhag ofn y bydd trallod ariannol?**
Ar sail yr ymarfer diwydrwydd dyladwy, perfformiad hanesyddol a rhagolygon ariannol, mae'n annhebygol iawn y bydd y cwmni'n wynebu trallod ariannol. Yr unig gymorth ariannol a ddarperir ar hyn o bryd yw'r benthyciad ad-daladwy. Byddai unrhyw benderfyniad sydd ei angen, yn y sefyllfa annebygol fod cwmni'n mynd i drallod ariannol, yn cael ei wneud ar sail yr amgylchiadau penodol ar y

pryd hwnnw. Mae 'cymorth hyd braich' yn cyfeirio at argaeledd arbenigedd, gwybodaeth ac adnoddau gan grŵp ehangach TrC, tra'n cynnal annibyniaeth weithredol Pullman Rail Limited. Bydd unrhyw gymorth yn cael ei ddarparu yn unol â threfn rheoli cymhorthdal y DU.

9. **A gafodd Pullman ei farchnata'n agored fel busnes oedd ar werth, neu a wnaeth TrC gysylltu â Pullman h.y. a oedd yn bryniant na ofynnwyd amdano?**
   Cysylltodd TrC â Grŵp Colas yn 2021.

10. **A fydd Pullman yn cystadlu am fusnes nad yw'n ymwneud â TrC?**
    Bydd. Nid yw dros 90% o fusnes Pullman yn ymwneud â TrC.

11. **A fydd Trafnidiaeth Cymru yn ffafrio Pullman wrth asesu tendrau yn y dyfodol?**
    Ni fydd TrC yn ffafrio Pullman o dan unrhyw amgylchiadau wrth asesu tendrau yn y dyfodol. Bydd TrC yn cydymffurfio â'r rheolau caffael cyhoeddus neu gyfleustodau (fel y bo'n berthnasol) a threfn rheoli cymhorthdal y DU.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".